

CYFARFOD 12 CHWEFROR 2018

Y STRATEGAETH DDIGIDOL

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD ANTHONY HUNT

EITEM AGENDA: 8

Rhesymau dros yr Adroddiad

1. Sicrhau cytundeb Cyd-Gabinet i lunio achos busnes i ddatblygu cyfres o weithgareddau cysylltiedig â'r nod o wella'n sylweddol allu a photensial digidol ardal Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Bydd yr achos busnes ar ffurf rhaglen sy'n cynnwys yr wyth elfen ddigidol/cysylltedd a nodir yn yr adroddiad hwn. Bydd yr achos busnes i'r rhaglen hon ar lefel SOC gan ganolbwyntio ar Gynnwys Strategol sy'n dwyn ynghyd ag wyth elfen fel Rhaglen o brojectau/ymyriadaeth dan y thema strategol ddigidol;

Pan gaiff yr achos busnes rhaglen hwn ei gyflwyno i'r Cyd-Gabinet a'i gymeradwyo ganddo caiff achosion busnes manylach eu dwyn ymlaen i bob elfen (wedi'u grwpio ynghyd lle y bo'n briodol i wneud hynny) fesul achos.

Gallai fod Achosion Busnes Amlinellol (ABAau) i brojectau mwy, cymhlethach lle bydd angen i'r Cabinet ddeall yn llawn costau a risgiau cyn bwrw ymlaen i'r farchnad drwy Achos Busnes Llawn/Terfynol (ABT). Yn achos projectau llai sydd o werth llai, yn llai cymhleth a/neu â risg lai, gallai fod yn briodol symud yn syth at y cam ABA - ond yn y naill sefyllfa caiff costau, gwerthoedd, elw, risgiau, amserlenni, gwerth am arian, fforddiadwyedd ac ati y project eu nodi'n glir, fel bod modd gwneud penderfyniad gwybodus am ba un a ddylid bwrw ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Bydd y dull uchod yn galluogi'r Cabinet i symud ymlaen gyda'r elfennau hyn y gellir eu datblygu'n gyflym heb gael eu cadw'n ôl gan brojectau eraill h.y. cynnydd ar raddfa'r arafaf. Bydd goblygiadau mawr i rai projectau, a allai gael eu harwain gan y farchnad h.y. galluogi'r Achos Busnes i bentyrru ac felly gwybod amserlenni cynnydd, ac mewn rhai achosion ni all y Cabinet eu gweithredu ei hunan.

Cyflwyniad

2. Mae cysylltedd a gallu digidol yn ofyniad sylfaenol i ddatblygu prifddinas-ranbarth fywiog, gyfoes a llewyrchus sy'n wirioneddol gystadleuol yn rhyngwladol.
3. Mae nifer o'r cynigion a nodir isod yn dibynnu ar rwydwaith seilwaith datblygedig o ffibr tywyll. Mae'n debyg mewn sawl ffordd i'r cynigion trafndiaeth a ddaw i'r fei maes o law; mae'r rhwydwaith ffibr tywyll megis y cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd rydym am eu sefydlu, mae'n galluogi data i symud yn gyflym ac effeithlon yn yr un modd ag y mae cysylltiadau trafndiaeth da'n galluogi pobl i symud yn gyflym ac effeithlon.
4. Mae argaeledd cysylltedd digidol o'r radd flaenaf yn ffactor pwysig wrth ddenu'r math o fusnesau sydd eu hangen arnom yn y rhanbarth i gynnal swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda. O ran hyn mae cysylltiad cryf rhwng yr elfen hon o waith a'r clwstr lled-ddargludydd presennol a'r projectau newydd arfaethedig yn yr elfen arloesi.

Yn yr un modd, mae diffyg cysylltedd digidol o safon uchel yn rheswm cryf i atal cwmnïau arloesol, cyfoes rhag adleoli yma.

5. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu naw cam datblygu gwahanol sydd eu hangen i sicrhau arlwy digidol holistig i'r brifddinas-ranbarth, ac fe'u nodir isod.

Mae pob un o'r naw wedi'u rhyng-gysylltu, ac i ryw raddau maent yn dibynnu ar ei gilydd; ond nid oes yn rhaid gwneud y cyfan yr un pryd, ond gellir eu datblygu dros amser mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat.

6. Mae gan fusnesau'r brifddinas-ranbarth lawer i'r ennill o gefnogi datblygiad y math o uchelgais digidol a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a rhagwelir, wrth i achosion busnes cael eu llunio ar bob cam gan y CPRC, byddwn yn gallu ennyn swm sylweddol o fuddsoddiad gan y sector preifat.
7. Nid yw'r adroddiad hwn a gyflwynir i'r Cyd-Gabinet yn gofyn am lawer o fuddsoddiad unionsyth, ond mae angen rhywfaint o arian datblygu i lunio achosion busnes a chwmpasu gofynion.

Yn y penderfyniad cychwynol ym Mwrdd y Rhaglen yn Rhagfyr 2017, roedd awgrym y gallai'r Cyd-Gabinet fod am wneud buddsoddiad cynnar mewn cysylltiad i'r cyswllt digidol trawsiwerydd, gan fod nifer o elfennau project eraill i ryw raddau'n dibynnu ar hyn. Amlinellir y cynnig yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn; yn amodol ar lunio achosion busnes, nid ymddengys bod angen llawer o fuddsoddiad cyfalaf, a gall gwariant cyfalaf fod yn gyfyngedig i gyfnod prawf wrth i lefel y defnydd gael ei monitro.

Naw Efen y Cynigion Digidol

8. Trefnu Darpariaeth

8.1 Mae'r elfen hon i'r cynigion digidol yn cynnwys creu gweledigaeth ddigidol, brand a hunaniaeth i'r CPRC.

8.2 Cam cyntaf pennu ein cyfeiriad strategol yw ein diffinio ein hunain fel "dinas-ranbarth ddeallus" sy'n ysgogi atebion arloesol a tharfol i ddenu partneriaethau sector preifat a buddsoddiad a'n rhoi ar yr un lefel ag ardaloedd arweiniol eraill yn y DU fel "Bristol is Open" ac "MK Smart" (Milton Keynes).

Gallwn ddysgu o ddulliau llwyddiannus eraill, ond ni allwn eu hefelychu'n llwyr eithr datblygu ein brand ein hunain fel rhanbarth unigryw gwahanol.

8.3 Mae'n hynod o bwysig bod gennym ddull cydlynol strategol ar draws yr holl raglenni bargaen ddinesig, a bod ystyriaethau digidol yn rhan o holl gynlluniau CPRC.

Er enghraifft, os ydym yn buddsoddi mewn gwaith adeiladu i wella cysylltiadau ffordd neu reilffordd, rhaid i ni achub ar y cyfle i gynnwys dycio ffibr digidol. Yn yr un modd, os ydym yn penderfynu ar leoliadau ar gyfer cwmnïau technoleg arloesol, rhaid i ni sicrhau bod ganddynt y seilwaith digidol a'r cysylltedd priodol.

8.4 Os y'i comisiynir yn awr, gallai'r cam cyntaf hwn i greu cwmpas a gweledigaeth gael ei gwblhau o fewn y chwe mis nesaf. Byddai'n cynnwys:

- Llunio strategaeth "dinas ddeallus" CPRC ac achos busnes i fuddsoddi
- Astudiaeth o ddichonoldeb i greu sefydliad digidol CPRC sy'n dwyn ynghyd y sector cyhoeddus, prifysgolion, y sector preifat, sefydliadau ymchwil, Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog i frandio, dylanwadu a hyrwyddo datblygiad rhaglen yn y dyfodol
- Datblygu gallu arwain i raglen ddigidol CPRC sy'n dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill, ac o lwyddiannau a methiannau dinasoedd a rhanbarthau sydd ymhellach ar y blaen o ran eu soffistigeiddrwydd digidol ar hyn o bryd, ond gan hefyd fod yn unigryw.
- Datblygu dull strategol, cydlynol CPRC i:
 - Adeiladau
 - Symudedd a thrafnidiaeth
 - Ynni
 - Rheoli Gwastraff
 - Rheoli dŵr
 - Gofal iechyd

- Creu perthnasau lleol cryf i ddatblygu amgylchedd cadarnhaol i weithredwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y farchnad ddigidol.

8.5 Caffaelir arbenigwyr allanol i lunio'r strategaeth a'r achos busnes. Y bwriad yw y daw hyn o blith arbenigwyr ym maes technoleg sydd â phrofiad o weithio gyda rhanbarthau "deallus" eraill.

Ni ragwelir y bydd angen mwy o gyngor cyfreithiol nac ariannol ar gam yr achos busnes SOC.

8.6 Amcangyfrifir taw'r gost fydd:

Arbenigedd Ymgynghori allanol	£80,000
Cymorth Caffael	£10,000
Arbenigedd brandio a marchnata	<u>£10,000</u>
	£100,000

Bydd angen capasiti rheoli rhaglen i gefnogi'r broses cynllunio busnes; rhoddir hyn drwy swydd yn Swyddfa Rheoli Project y CPRC.

Gofynnir i'r Cyd-Gabinet ystyried ymrwymo'r adnoddau hyn ar y cam hwn fel bod modd i'r gwaith ddechrau.

9. Cysylltedd Byd-eang

9.1 Mae'r elfen hon yn ymwneud â sefydlu cysylltiad â'r cyswllt digidol trawsiwerydd i alluogi'r cysylltiad cyflymaf posibl i'r rhwydwaith digidol rhyngwladol.

Mae ganddo'r potensial i wneud CPRC yn rhanbarth a gysylltir â'r byd ac a all ddarparu gwasanaethau gystal ag unrhyw le arall yn y byd, gan ar yr un adeg atgyfnerthu cysylltiadau â'r diaspora Cymreig byd-eang.

9.2 Crybwyllwyd cynigion yn y gorffennol i gysylltu i'r cebl drwy gysylltiad tanfor oddi ar arfordir De Gwŷr yn Abertawe. Awgryma gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru y byddai costau hyn tua £80m.

Mae'r cynnig yn yr adroddiad hwn yn ddewis amgen rhatach o lawer sy'n cymryd cysylltiad ar y tir o le daw'r cwbl i wyneb o'r môr i'r de-orllewin o Fryste gan ddefnyddio, yn rhannol, ffibr tywyll presennol. Mae potensial i ddatblygu dull partneriaeth â Bryste wrth i'w chynlluniau digidol ddwyn ffrwyth.

Nid yw hyn yn diystyru sefydlu cysylltiad tanfor (o bosibl yn ardal y Barri) yn y dyfodol os oes angen gan y bydd angen mwy o gapasiti; ond mae'n ffordd gost-efeithiol o ddechrau datblygu ein hateb ein hun i heriau cysylltedd digidol rhyngwladol llawn.

9.3 Awgryma amcangyfrifon cychwynnol, o drafodaethau â darparwyr y sector preifat, na fyddai'r gost o sefydlu cysylltiad tir yn fwy na thua £500,000, ond gallai hyn gael ei haneru drwy enyn buddsoddiad sector preifat.

Byddai hefyd angen darparu ffrwd refeniw parhaus i dalu cost rhentu'r cysylltiad ffibr. Byddai hyn tua £150,000 y flwyddyn, ond gallai ymrwymiad cychwynol CPRC fod yn, dyweder, dair blynedd wrth i ni fonitro a gwerthuso lefelau defnydd a'r effaith ar y ddinas-ranbarth.

- 9.4 Mae buddion amlwg i CPRC, Dinas-Ranbarth Abertawe (a maes o law Cymru gyfan) o sefydlu cysylltiad â De Cymru, a chynigir cynnal trafodaethau ag Abertawe i weld a ellid rhannu costau a buddion.
- 9.5 Mae nifer o'r elfennau i'r elfen ddigidol a ddisgrifir isod yn dibynnu ar sefydlu'r cysylltiad, ac felly gofynnir i'r Cyd-Gabinet ystyried p'un ai a fyddent am flaenoriaethu llunio achos busnes i wneud buddsoddiad cynnar yn y project hwn.

Bydd yr achos busnes yn ystyried pa ganiatâd, cydsyniad ac ati sydd ei angen a chostau dangosol cysylltiedig.

Nid yw'r £100,000 y gofynnir amdano i lunio achos busnes, y cyfeirir ato ym mharagraff 8.6 uchod, yn cynnwys unrhyw swm ar gyfer cyngor ariannol, cyfreithiol nac eiddo arbenigol, ac os oes angen cyngor arbenigol o'r fath i ddatblygu agweddau ar yr achos busnes, yna ceisir cymeradwyaeth i ddyrannu arian ychwanegol.

- 9.6 Y cam cyntaf fyddai ymgynnull rhwydwaith arbenigwyr i weithio i ddatblygu'r achos busnes yn llawn, ond rhagwelir y gallai'r gwaith hwn fynd rhagddo'n gyflym a chael ei gwblhau rhwng Ebrill a Hydref 2018, os yw'r Cyd-Gabinet yn ei wneud yn flaenoriaeth buddsoddi.

10. Cysylltedd Cymreig

- 10.1 Mae'r elfen hon o'r elfen ddigidol yn cynnwys manteisio ar Gyfnewidfa Ryngrwyd bresennol Caerdydd (IX) a fyddai'n cynnig cyfleoedd gwell i gystadlu, arloesi a datblygu amgylcheddau prawf.
- 10.2 Mae rhwydwaith digidol Cymru ar hyn o bryd wedi'i gysylltu â gweddill y byd drwy gyfnewidfa ryngrwyd y cyfeirir ato fel IX. Mae wedi'i leoli yng Nghaerdydd gyda mynediad cyfyngedig i ffibr tywyll fel y gall nifer o wasanaethau cystadleuol fanteisio arno a'i fabwysiadu, sy'n golygu nad ydym yn gweithredu mor effeithlon ag y gallem.

Mae IX ar hyn o bryd yn gyfyngedig o ran y gwasanaethau y gall eu darparu. Mae gan gwsmeriaid a gwerthwyr gwahanol gyflymder gwahanol oherwydd fforddiadwyedd a mynediad i ffibr tywyll.

Byddai'r darn hwn o waith yn nodi safleoedd allweddol y mae angen i IX gysylltu â nhw, gan arwain at ddarparu cysylltiadau ffibr tywyll ychwanegol yn ôl yr angen, yn amodol ar gael y gymeradwyaeth ac arian rhagofynnol.

- 10.3 Cymhariaeth i'r sefyllfa bresennol fyddai darparwr teledu megis Sky, sy'n eich galluogi i wyllo amryw sianeli. Mae IX yn galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaethau rhwydwaith, ond ar hyn o bryd mae nifer y "sianeli" yn gyfyngedig.
- 10.4 Cynigir i'r achos busnes ar gyfer datblygu hyn ffurfio rhan o'r gwaith a amlinellir ym mharagraff 8 uchod dan "Trefnu Darpariaeth".

Mae'r buddsoddiad y bydd ei angen i gyflawni hyn maes o law'n debygol o fod yn llai na £100,000, ac mae lle mawr i sicrhau buddsoddiad sector preifat gan fod buddion sylweddol i fusnesau o wella'r arlwy IX.

11. Cysylltedd Rhanbarthol

- 11.1 Mae'r elfen hon yn ymwneud â chreu rhwydwaith ffibr tywyll ar safle strategol ar draws Rhanbarth Dinas Caerdydd, y byddai rhywfaint ohono'n ased cyhoeddus. Byddai hyn yn cefnogi maint y traffig cyhoeddus, preifat, ymchwil a dinasyddion i mewn i'r CPRC mewn ffordd nad yw'n bosibl ar hyn o bryd.

Mae ceblau ffibropig yn galluogi trosglwyddo data'n eithriadol o gyflym, gan ddefnyddio'r rhwydwaith ffibr tywyll sy'n aros i gael ei ddefnyddio. Mae angen ar "ryngrwyd y pethe" (e.e. technoleg wisgadwy, ceir di-yrwyr) rwydwaith ffibr da i gael ei wireddu'n llawn.

Fel y cyfeirir ato uchod, byddai angen i'r holl brojectau adeiladu a seilwaith sector cyhoeddus yn CPRC gynnwys dyciau ffibr.

- 11.2 Ar hyn o bryd dibynnwn ar rentu ffibr sector preifat costus; byddai'r cynnig hwn yn gwaredu elfen fawr o'r gost honno gan y byddai'r sector cyhoeddus yn berchen ar y rhwydwaith fel ased y gallem ei ddefnyddio at ein dibenion ein hunain ac i greu incwm.
- 11.3 Mae arian grant ar gael i wneud cais gan DCMS ar gyfer Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN). Nid yw'r cyllid hwn ond ar gael i rwydweithiau sector cyhoeddus ar hyn o bryd.

Fel pob grant y gall awdurdodau lleol wneud cais amdano, dylid defnyddio'r cyllid posibl hwn i gefnogi a galluogi ein dyheadau, yn hytrach na'u cyfyngu a'u diffinio.

- 11.4 Cyflwynodd Cyngor Caerdydd, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac awdurdodau lleol Gwent fynegiant o ddiddordeb yn y grant LFFN i ddechrau. Ers hynny mae cyfarfodydd rhwng penaeithiaid TGCh awdurdodau CPRC wedi'u cynnal i fanteisio ar y gorau o'r holl gynigion a chyflwyno un cais ar ran CPRC. Mae'r cais cyntaf hwn tua £12m ond nid yw'n ddibynnol ar gyfraniadau ariannol y Fargen Ddinesig.

Roedd angen ychydig o fuddsoddiad, tua £15,000, i lunio pum model achos busnes i gefnogi'r cais, y gellir talu amdano drwy'r gyllideb Swyddfa Rheoli Rhaglenni bresennol.

11.5 Mae cyllid LFFN ar gael mewn ‘tonnau’ dilynol. Bydd y cais cyfredol am gyllid Ton 2. Mae rhai awdurdodau lleol yn CPRC mewn sefyllfa i wneud cais amdano’n awr; byddai’n well gan eraill aros ar hyn o bryd a chais am Don 3 yn ddiweddarach - fwy na thebyg tua Mehefin 2018. Bydd y deg awdurdod lleol yn rhan o’r trafodaethau ynghylch cais Ton 3, a chânt eu hannog a’u cefnogi i gymryd rhan.

Cyflwynwyd cais Ton 2 cyfredol ar ran Cynghorau Blaenau Gwent, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Ni cheisiwyd am unrhyw gyfraniad arian cyfatebol, ac nid oes ei angen gan CPRC ar gyfer y cais hwn.

11.6 Er y bydd cyllid LFFN, os y’i ceir, yn cyfrannu at wireddu’r uchelgais o ddarparu rhwydwaith ffibr tywyll cynhwysfawr ledled CPRC cyfan, mae angen buddsoddi mwy sylweddol o lawer i gyflawni’r dyhead hwnnw; mae hyn yn debygol o gynnwys cyfuniad o arian gan CPRC, Llywodraeth Cymru, DCMS a’r sector preifat. Mae nifer o fuddsoddwyr sector preifat amlwg yn debygol o ddangos diddordeb mewn partneru â CPRC yn y maes hwn.

Caiff achos busnes llawn ar gyfer y buddsoddiad hwn ei lunio fel rhan o’r gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 8 uchod (Trefnu Darpariaeth). Mae’n debyg o fod y baich cyllidol mwyaf ar CPRC ar gyfer y strategaeth ddigidol, ac mae’n debygol y bydd angen swm buddsoddi sylweddol.

11.7 Y darnau allweddol o waith i’w datblygu yw:

- Amlinellu dyhead CPRC i sefydlu rhwydwaith ffibr tywyll dan berchenogaeth gyhoeddus;
- Cytuno i’r cwmpas, y cynllun a’r dyhead;
- Cynllunio cysylltiad yr holl safleoedd strategol cyhoeddus a phreifat allweddol ar draws CPRC;
- Rhagosod dyctiau yn holl waith seilwaith CPRC a sector cyhoeddus, gan gynnwys y Metro;
- Datblygu cynigion ar ddyheadau strategol a rennir gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys trafodaeth ar sut mae hyn yn cysylltu â PSBA;
- Ymchwilio i opsiynau i weithio gyda Bargen Ddinesig Abertawe ar gynigion ffibr tywyll yn y dyfodol
- Ystyried y potensial i bartneru ag un neu fwy o brifysgolion i ddatblygu rhwydwaith ymchwil a datblygu gan ddefnyddio’r rhwydwaith ffibr tywyll.

12. Cysylltedd Ffibr Cymunedol

12.1 Mae’r elfen hon yn ymwneud â datblygu rhwydwaith ffibr cyflym iawn i gysylltu â chymunedau lleol.

Ar hyn o bryd mae amrywiad enfawr, gyda rhai ardaloedd yn cael cyflymder isel neu ddiffyg cysylltiad. Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn aneniadol i fuddsoddiadau sector preifat oherwydd diffyg gwerth masnachol, ond y rhain yn aml yw'r union ardaloedd lle mae'r math hwn o fuddsoddiad yn hanfodol i'w gwneud yn lleoliadau hyfyw i sefydlu a thyfu busnesau.

12.2 Bydd y cynigion hyn yn adeiladu ar ddyheadau Llywodraeth Cymru i gyflawni Superfast Cymru, nas cyflawnwyd i bob cymuned, a Superfast Cymru 2 a fydd ond yn cyrraedd hyd at 50% o'r 95,000 o eiddo na allant gael band eang cyflym iawn ar hyn o bryd.

12.3 Mae angen datblygu cysyniad a mapio fel y cam cyntaf i gyflawni'r rhaglen hon, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi y byddai'n barod i ariannu hyn.

Ar ôl dysgu'r blychau drwy'r broses fapio, byddai'r strategaeth yn seiliedig ar fewnlenwi ardaloedd na yw Superfast Cymru 1 a 2 yn eu cyrraedd gan ddefnyddio ystod o dechnolegau gan gynnwys cloddio a dyctio'n ôl yr angen.

12.4 Mae darnau allweddol o waith yn cynnwys:

- Mapio ardaloedd cyflymder isel ar gynlluniau i'r rhwydwaith ffibr tywyll a ddisgrifir uchod ym mharagraff 11, yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd na fyddant yn denu buddsoddiad o'r sector preifat;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi atebion i'r ardaloedd a nodwyd;
- Gweithredu cynllun taleb Gigabit i gefnogi mabwysiadu eang technolegau cyflym iawn.

13. WiFi Rhanbarthol/Cymunedol

13.1 Mae'r elfen hon yn cynnig sefydlu rhwydwaith WiFi cyhoeddus hollbresennol fel adnodd cyhoeddus i'w gynnal gan y sector preifat yn barhaus.

Gwyddom oll fod cyfleuster WiFi cyhoeddus am ddim yn cael ei werthfawrogi'n gynyddol ac fe'i disgwylir fel rhan o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, wrth i Ryngrwyd y Pethe ddatblygu, daw hwn yn rhagofyniad hanfodol i ddinas-ranbarth ddeallus, nid yn unig i bobl sy'n byw ac yn teithio yn y ddinas-ranbarth, ond hefyd i beiriannau, fel ceir di-yrwyr.

13.2 Mae gan WiFi cymunedol botensial enfawr i alluogi dyfydol gweithredol a chysylltiedig, lle mae'r rhwystrau rhwng WiFi preifat a chyhoeddus yn niwlo i'r graddau y gall pobl a pheiriannau fod yn gysylltiedig yn gyson ac yn ddibynnol. Mae hon yn elfen bwysig o ddinasoedd deallus bresennol llwyddiannus.

Ein dyhead fyddai i'r rhwydwaith WiFi fod ar gael ar draws CPRC – gwledig, cymoedd a threfol, gyda chyfle cydradd i gysylltu'n unrhyw le.

13.3 Mae hwn yn faes datblygu y mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn gweithio gyda CPRC arno, yn benodol drwy waith Tasglu'r Cymoedd, ac mae hefyd yn debygol o fod yn faes lle gallem weithio mewn partneriaeth â Dinas-Ranbarth Abertawe.

13.4 Mae trafodaethau â darparwyr posibl yn awgrymu bod hwn yn gyfleuster sy'n debygol o ddenu arian yn llwyr o tu'r sector preifat heb fod angen buddsoddiad CPRC. Wrth gwrs byddai angen profi hyn drwy ddatblygu achos busnes.

13.5 Y darnau allweddol o waith i'w datblygu yw:

- Astudiaeth o ddichonoldeb ar y posibiliad o rwydwaith WiFi cyhoeddus a ariennir yn breifat wedi'i gydbwyso â manteision perchenogaeth gyhoeddus;
- Dysgu o LinkNYC, Digital York ac eraill i ddatblygu ateb CPRC cyfan;
- Defnyddio technolegau arloesol i greu rhwydwaith mesh sy'n ymestyn y tu hwn i ardaloedd cebl â chymunedau mwy gwledig;
- Ymchwilio i opsiynau partner a modelau rhydd i'w defnyddio mewn llefydd eraill.

14. Mynediad 5G symudol

14.1 Rydym oll yn gyfarwydd â 4G drwy ein ffonau symudol a dyfeisiau digidol eraill; 5G yw'r genhedlaeth nesaf, ond mae'n ddatblygiad sylweddol i gapasiti digidol.

14.2 Bydd egin dechnoleg megis ceir di-yrwyr, ac nid yw'r rheiny eto wedi'u meddwl amdanynt na'u dyfeisio, yn dibynnu ar 5G dibynadwy sydd ar gael ymhobman i weithredu'n effeithiol.

14.3 Bydd manteision sylfaenol 5G yn cynnwys cyflymder data gwell a llawer llai o guddni gyda'r gallu i gyrraedd nifer llawer iawn mwy o ddyfeisiau o'u cymharu â'r rhwydweithiau 4G cyfredol.

Gall y rhwydweithiau 4G gorau lawrlwytho hyd at 300Mbit yr eiliad. O'i gymharu, mae 5G yn addo cynnig cyflymder dros 1Gb yr eiliad, gyda nifer o amcangyfrifon yn gosod y ffigur hwnnw'n agosacha t 10Gb yr eiliad.

I roi hynny'n ei gyd-destun, byddwch yn gallu lawrlwytho – nid yn unig ffrydio – ffilm HD llawn mewn llai na 10 eiliad ar rwydwaith 5G. Byddai'r un dasg yn cymryd yn agosach at 10 munud ar 4G.

14.4 Mae amseroedd ymateb 4G cyfredol o 50 milieiliad yn cyfrif am y profiad llai-nag-unsyth sydd gennym wrth ddefnyddio apps ar y we, hyd ynoed mewn ardal sydd i

fod â signal cryf. Bydd 5G, yn wahanol, yn meddu ar amsreoedd ymateb 1 milieiliad o un pen i'r llall i sicrhau profiad tebyg i fand eang.

14.5 Prif broblem 4G yw ei gapasiti cyfyngedig. Yn syml, nid oes digon o led band mewn tonfeddi rhwydwaith symudol cyfredol i roi profiad di-dor i amryw ddefnyddwyr mewn ardal.

Bydd 5G yn ehangu'n sylweddol ar gapasiti o'r fath, drwy agor y sbectrwm tonfeddi newydd a llai prysur a defnyddi'r sbectrwm mewn ffordd fwy deallusol. Caiff ei ddyrannu'n ddeallusol i ddefnyddwyr unigol yn seiliedig ar eu gofynion penodol, felly bydd gan ddefnyddwyr bob amser yr union swm o sbectrwm rhwydwaith sydd ei angen i wneud yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

14.6 Ni fydd 5G yn gweithio drwy fastiau yn yr un modd â thechnoleg 3G a 4G gyfredol, ond bydd yn dibynnu ar bwyntiau mynediad sydd ar gelfi stryd fel goleuadau stryd.

Bydd y pwyntiau mynediad hyn yn dibynnu ar rwydwaith ffibr tywyll, fel y disgrifir isod, i weithredu; felly gwellir gweld bod ffibr tywyll yn rhagofynnol i'r holl fuddion a manteision y bydd 5G yn gallu eu cyflawni maes o law.

14.7 Ni fydd pwyntiau mynediad ynddynt eu hunain yn ddrud – ar hyn o bryd maen nhw'n costio tua £350-£400 er y bydd y gost honno'n anochel yn lleihau wrth i'r dechnoleg ddod yn fwy cyffredin – ond bydd angen llawer iawn ohonynt i sicrhau darpariaeth ddi-dor.

14.8 Mae'n debygol y bydd diddordeb sylweddol gan y sector preifat mewn buddsoddi mewn technoleg 5G. Awgrymir taw'r ffordd orau o ddechrau ddysgu am botensial 5G yw treialu safleoedd penodol yn y CPRC. Y dewisiadau amlwg fyddai Sain Tathan a'r Parc Technoleg Awtogerbydol arfaethedig ym Mlaenau Gwent oherwydd y cysylltiadau rhwng 5G a'r arloesi diweddaraf yn y diwydiant modurol.

14.9 Fel rhan o'r gwaith o gwmpasu'r strategaeth ddigidol arfaethedig a datblygu'r achos busnes byddwn yn:

- trafod â'r sector preifat a sefydliadau ymchwil y Brifysgol i ddeall y farchnad yn well.
- rhagdybio gweithrediad 5G safonol.
- ystyried cynigion ar gyfer dewis partner gweithredu.
- ystyried cynigion i gaffael Pwyntiau Mynediad.
- gweithredu nifer o weithrediadau 5G prawf mewn lleoliadau penodol.
- dysgu gwersi o'r rhain ac ystyried y potensial i'w hehangu ar draws CPRC.

15. Synhwyro'r CPRC

15.1 Mae'r elfen hon o'r cynigion digidol yn rhagweld rhwydwaith synwryddion ar draws y rhanbarth drwy ganopi o gysylltedd drwy synwryddion tir cyhoeddus.

Megis y pwyntiau mynediad 5G a ddisgrifir uchod, caiff y synwryddion hyn eu gosod ar gelfi stryd gan alluogi monitro a rhoi ystod fawr o wybodaeth am ddetholiad o weithgareddau dyddiol.

15.2 Daw Rhyngwryd y Pethe'n rhan hollgynhwysol o'n bywydau, gan gysylltu miliynau o ddyfeisiau bychain ynni-isel yn ein cartrefi a'n dinasoedd. O ffonau i oergelloedd, o goleuadau i stoc fferm, o geir i barseli ac o afonydd i draethau, bydd ystod eang o "bethau" o ddiddordeb wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith. Mae ceir a dillad cysylltiedig eisoes mewn busnes ac mae dronau'n dod yn bethau cyffredin. Rydym yn dod yn gynyddol gyfarwydd â'r cysyniad o'r tŷ deallus, lle gallwch gysylltu o bell drwy ffôn symudol i ddiffodd a dechrau offer gwahanol.

Bydd rhwydwaith ffibr tywyll CPRC, y WiFi Cyhoeddus a'r cynnig 5G yn mynd â'r mentrau hyn i'r lefel nesaf.

15.3 Ymhlith enghreifftiau penodol mae:

- dinasoedd deallus a all lywio gyrwyr i fan parcio gwag
- gwasanaethau brys yn troi goleuadau stryd ymlaen yn ôl yr angen
- nodi pa ffyrdd i'w graeanu mewn tywydd garw
- gridiau deallus a all gadw adnoddau ynni a rheoli'r defnydd o ynni

15.4 Fel rhan o'r gwaith o gwmpasu'r strategaeth ddigidol arfaethedig a datblygu'r achos busnes byddwn yn:

- Ymweld â'r Dinasoedd Rhyngwryd y Pethe llwyddiannus presennol i ddeall a dysgu ganddynt.
- Cytuno ar y dyheadau am rwydwaith Rhyngwryd y Pethe ar draws y CPRC.
- Cefnogi treialu parhaus projectau synwryddion ar draws y CPRC yn bennaf projectau rhwydwaith LoraWan Cyngor Dinas Casnewydd
- Ystyried gweithredu rhwydwaith synwryddion ar draws y rhwydweithiau tonfeddi isel presennol.
- Ystyried gweithrediad rhwydweithiau tonfeddi isel mewn lleolaidau strategol CPRC allweddol.
- Ystyried uwchraddio'r projectau ar ôl dysgu ac adrodd.

16. Data Agored

16.1 Fel cyrff cyhoeddus cadwn a rheolwn swm enfawr o ddata am ein hardaloedd a'r gweithgareddau a gynhelir ynddynt. Ein safbwynt sylfaenol yw cadw'r wybodaeth hon mewn amgylchedd caeedig waeth p'un a yw'n sensitif neu'n bersonol ei natur. Wrth wneud hynny rydym yn amddifadu ein dinasyddion a'n busnesau o ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a allai gael ei defnyddio a'i datblygu gan sicrhau buddion sylweddol i gymdeithas.

16.2 Y cynnig i'r elfen hon o'r elfen ddigidol yw y gallwn bennu dyhead i fod yn amgylchedd Data Agored llawn sy'n sicrhau bod yr holl data a gedwir yn gyhoeddus (ag eithriadau penodol e.e. data personol) ar gael i bawb, heb hawlfraint, patentau na dulliau rheoli eraill.

Byddai gwneud data agored yn rhan bwysig o'n brand digidol CPRC yn galluogi'r sector preifat, yn benodol busnesau bach a chanolig, i ddefnyddio data i ddarparu ateb i broblemau a materion y sector cyhoeddus, tra ar yr un pryd dyfu eu busnesau a chreu swyddi.

Dechreuodd llawer o'r busnesau "ungorn" yn y DU sydd wedi tyfu o fentrau bychain i fod yn gwmnïau gwerth miliynau o bunnoedd drwy fanteisio ar argaeledd data agored.

16.3 Mae Gweithgor Data Agored y Fargen Ddinesig eisoes wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr o'r 10 awdurdod lleol ynghyd â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi mynychu cyfarfodydd ac mae'r grŵp yn trafod â nhw am yr angen i sefydlu data agored ar draws rhwydwaith y Metro gan roi gwybodaeth teithio fyw o safon uchel.

Mae trafodaeth â'r gweithgor wedi dysgu bod y dyhead a'r awydd i wneud data ar gael yn gyflawn ac am ddim yn uchel, a bydd y grŵp yn dod ag adroddiad gerbron y Cyd-Gabinet yn y dyfodol agor yn nodi'r cynigion manwl.

Mae'r Gweithgor Data Agored hefyd wedi dechrau datblygu ystod o brojectau ynghylch trafndiaeth (mewn ardaloedd gwledig, cymoedd a threfol) ac o gylch gwybodaeth mapio gofodol.

16.4 Yr ymrwymiad i'r Drwydded Llywodraeth Agored yw'r cam cyntaf mewn nifer o weithgareddau i sefydlu CPRC fel amgylchedd data gwirioneddol agored. Mae'r Gweithgor Data Agored yn hanfodol i'r broses hon fel y dull canolbwyntiol ar gyfer y gwaith sydd angen ei wneud.

Ymhlith y camau eraill mae:

- Nodi hyrwyddwr Data Agored ymhob Awdurdod.

- Mabwysiadu cynnyrch Lle Llywodraeth Cymru fel y llwyfan Data Agored cyntaf i CPRC.
- Datblygu a chreu haenau CPRC ar Lle i adlewyrchu gwybodaeth rhaglen pob elfen.
- Datblygu o leiaf ddau broiect allweddol drwy'r Gweithgor Data Agored.
- Rhedeg cystadleuaeth Data Agored, yn yr un modd â'r rhai sy'n Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf, i ddod o hyd i'r achosion defnydd nesaf ar gyfer Data Agored.
- Sefydlu Labordai Byw ymhob ardal Awdurdod. Defnyddio lleoliadau fel Metro Canolog Caerdydd fel eu bod yn llawn haenau gallu digidol i wneud y mwyaf o ddata agored posibl.

16.5 Ar hyn o bryd mae gwaith y Grŵp Data Agored yn cael ei gefnogi drwy ewyllys da yr awdurdodau cyfranogol ond er mwyn cyflawni ei botensial wrth i broiectau ddatblygu mae angen adnodd ymrwymedig arno. Felly gofynnir i'r Cyd-Gabinet ddyrannu £30,000 i dalu costau swyddog wedi'i secondio i gefnogi gwaith y grŵp wrth fynd ymlaen.

Ystyriaethau Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles

17. Mae'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy ddatblygu'r strategaeth ddigidol arfaethedig hon mae'r CPRC wrthi'n edych i ddyfodol hirdymor y ddinas-ranbarth i sicrhau ei fod yn amgylchedd bywiog a modern i genedlaethau'r dyfodol. Mae gan nifer o'r cynigion hyn y potensial i wneud ein rhanbarth yn fwy ynni effeithlon ac i gyfyngu'r angen am deithio ffisegol drwy alluogi busnesau a chymunedau i weithredu unrhyw le yn y rhanbarth.

Mae creu amgylchedd lle mae gan bawb fynediad cydradd at yr holl angenrheidiol digidol i fywyd modern, p'un ai a ydynt yn byw yng nghanol dinas neu gwm neu gymuned fwy gwledig, yn galluogi cyfranogiad gwirioneddol gan ddinasyddion ym mywyd y rhanbarth.

Fel cymdeithas, nid ydym ond yn dechrau deall yr ystod enfawr o fuddion a ddygir gan Ryngrwyd y Pethe, ond mae'r posibilid iddo gyflawni ond yr hyn sydd ei angen pan fo'i angen yn gyfraniad sylweddol at ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy.

Ystyriaethau Cydraddoldeb

18. Mae cysyllted digidol yn bwysig a daw'n gynyddol bwysig er mwyn i bobl allu cyfranogi mewn bywyd cyfoes. Ar hyn o bryd mae lefel anghydradd o gysylltedd digidol ar draws y CPRC, yn aml â'r cymunedau mwyaf difreintiedig a effeithir waethaf.

Mae'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad yn ceisio unioni'r anghydraddoldeb presennol drwy sicrhau cysylltedd digidol cyflym o safon uchel i bob rhan o'r CPRC, gan roi cyfleoedd gwell i'n holl dinasyddion a busnesau.

Goblygiadau Ariannol

19. Mae'r adroddiadau atodedig yn ceisio cymeradwyaeth i ddyrannu £100,000 i lunio'r strategaeth a'r achos busnes, a amlinellir ym mharagraff 8 uchod, a £30,000 pellach i gefnogi gwaith parhaus y Gweithgor Data Agored. Ar ôl llunio'r achos busnes bydd cais llawer mwy sylweddol gerbron y Cyd-Gabinet yn y dyfodol i ddyrannu cyllid yn benodol i sefydlu rhwydwaith ffibr tywyll, ond deallir y bydd y lefel hon o fuddsoddiad yn cael ei gyfateb gan gyfradd fawr o fuddsoddiad sector preifat.
20. Bydd trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arian CPRC yn alinio â chynigion buddsoddi Llywodraeth Cymru, ac nad oes gorgyffwrdd na dyblygu. Bydd swyddogion yn dal i ystyried y potensial i gael arian grant DCMS.
21. O ran datblygu achos busnes, mae'n bwysig i ofynion y Fframwaith Sicrhau Ansawdd Buddsoddi Ehangach yn cael eu dilyn, ac y rhoddir ystyriaeth fanwl i sut y caiff y rhaglen ei datblygu dros amser. Mae cydymffurfio â'r Fframwaith Sicrwydd yn ofyniad allweddol i delerau ac amodau arian Trysorlys EM, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.
22. Mae Adran 3.7 (Datblygu Achos Busnes) y Fframwaith Sicrwydd yn nodi:

Bydd yn rhaid i holl Ymgeiswyr Noddi'r Cynllun lunio achos busnes yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM gan ddefnyddio'r Model Pum Achos - gan ddechrau gyda chynnig cychwynnol (Achos Amlinellol Strategol) i Achos Busnes Amlinellol ("ABA") ac yn olaf Achos Busnes Llawn ("AbI").

Ar bob cam datblygu y mae'n rhaid i'r Achos Busnes brofi bod:

- *y cynllun yn cael ei gefnogi gan achos cymhellol drosnewid – yr achos strategol;*
- *mae'r cynllun yn cynrychioli gwerth cyhoeddus gorau – yr achos economaidd;*
- *bod y cynllun yn fasnachol hyfyw - yr achos masnachol;*
- *bod y cynllun yn fforddiadwy – yr achos ariannol;*
- *bod modd cyflawni'r cynllun – yr achos rheoli.*

Wrth i'r achos busnes ddatblygu o'r cynnig cychwynnol i'r amlinelliad i'r achos terfynol llawn bydd manylder a chyflawnder y 5 achos yn datblygu, ond, rhaid i bob cam o'r achos busnes gyflwyno achos cymhellol i'r cynllun cyn iddo gael ei gefnogi gan y Cabinet Rhanbarthol i'w symud i'r cam nesaf.

Oherwydd yr amrywiad posibl ym maint a chymhlethdod y cynlluniau arfaethedig caiff yr amser a neilltuir i noddwyr y cynllun ddatblygu'r amryw gamau o'r achos busnes ei bennu fesul cynllun.

Fel y dynodwyd yn flaenorol, bydd y broses arfarnu'n berthnasol i egwyddor cymesuredd a allai arwain at gyfuno'r camau ABA ac ABLI yn dibynnu ar lefel ac ansawdd y wybodaeth a roddwyd a chymhlethdod y cynllun.

23. Mae achos busnes strwythuredig sydd wedi'i baratoi'n dda yn:
- galluogi'r Cabinet Rhanbarthol a'i randdeiliaid allweddol i ddeall, dylanwadu a llunio cwmpas a chyfeiriad y project ar ddechrau'r broses gynllunio;
 - cynorthwyo'r Cabinet Rhanbarthol i ddeall y materion allweddol, y sylfaen tystiolaeth sydd ar gael ac osgoi ymrwymo adnoddau i gynlluniau sydd naill ai'n is-safonol neu na ddylid bwrw ymlaen â nhw o gwbl;
 - ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet Rhanbarthol am gynnydd a sicrhau ei gymeradwyo ar benderfyniadau allweddol ar y project ar y camau priodol a lleihau'r risg o orfod ail-weithio elfennau ar gam diweddarach;
 - dangos i uwch swyddogion, rhanddeiliaid, cwsmeriaid a'r Cabinet Rhanbarthol hyfywedd parhaus y dull arfaethedig.
24. Am y rhesymau a amlinellir uchod, awgrymir ystyried ar gam cynnar gytuno i'r dull a'r amserlenni cyffredinol i'w mabwysiadu i'r broses o ddatblygu achos busnes. Bydd hyn yn galluogi ymrannu'r cyllid datblygu y gofynnwyd amdano i'r camau achos busnes y cytunwyd arnynt a dyrannu lefel briodol yr adnoddau rhwng pob cam o'r cylch datblygu achos busnes.
25. Mae'r adroddiad yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith manwl y bydd angen ei gwblhau er mwyn deall sut mae'r strategaeth ddigidol a'i brojectau cyfansawdd yn cael eu caffael, eu rhoi ar waith a'u gweithredu dros amser e.e. meini prawf cymhwyso, dulliau darparu a sut y bydd y trefniadau llywodraethu'n gweithio'n ymarferol. Yn benodol, bydd angen i'r achos busnes fynd i'r afael yn glir â mater Cymorth Gwladwriaethol, tra'n cysuro ynghylch materion fel meini prawf gwerthuso'r project a sut y caiff cynigion ar gyfer cyllid buddsoddi eu hasesu o ran costau, gwerthoedd, elw, risgiau, amserlenni, fforddiadwyedd a gwerth am arian cyffredinol.
26. Telir am y cais am gyllid datblygu strategaeth ddigidol ac achos busnes a amlinellir uchod, o gyllideb refeniw y Rhaglen Datblygu a Chymorth ac fe'i nodir fel ymrwymiad yng Nghynllun Busnes Blyneddol 2018/19. Dylai'r Cabinet Rhanbarthol nodi bod risg y gallai unrhyw gyllid datblygu a warir cyn cymeradwyo Cynllun Busnes y Cytundeb Gweithio Ar Y Cyd fod yn aflwyddiannus os na chaiff y Cynllun Busnes hwnnw ei gymeradwyo, er bod hynny'n annhebygol o ddigwydd.
27. Wedi'i atodi yn Atodiad 1 mae datganiad 'Rhagdybiaethau Adnoddau' sydd â'r nod o roi sicrwydd ynghylch ceisiadau ariannu a wnaed i'r Cabinet Rhanbarthol mewn perthynas â'r symiau y gofynnwyd amdanynt, ffynhonnell yr arian a rheoli/cyfrifoldebau adnoddau. Bydd dogfennau gwybodaeth megis hefyd yn

sicrhau llwybr archwilio tryloyw os bydd yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn annigonol a bod ceisiadau diweddarach yn cael eu gwneud am gyllid pellach.

28. Rhoddir cyngor ariannol pellach wrth i'r achos busnes gael ei ddatblygu ac i adroddiadau gael eu cyflwyno'n ôl i'r Cabinet Rhanabrthol eu hystyried yn drylwyr a'u cymeradwyo.

Goblygiadau Cyfreithiol

29. Nid oes goblygiadau cyfreithiol unionsyth yn argymhellion yr adroddiad hwn heblaw am yr angen i sicrhau caffael priodol ar gyfer unrhyw gapasiti allanol i lunio'r achos busnes.

Wrth baratoi'r Achos Busnes arfaethedig bydd angen ystyried a mynd i'r afael â materion cyfreithil sy'n deillio o'r cynigion.

O ran Data Agored (paragraff 16 uchod) nodir y cynigir i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet Rhanbarthol ar y mater hwn gyda chynigion manwl, a phryd hynny rhoddir cyngor cyfreithiol manwl.

ARGYMHELLION

Argymhellir i'r Cyd-Gabinet wneud y canlynol:

- 1) Cytuno i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn fel y cyfeiriad strategol cyffredinol i elfen ddigidol CPRC, yn amodol ar yr holl Gynghorau Cyfansawdd yn cymeradwyo Cynllun Busnes y Cytundeb Gweithio Ar Y Cyd.
- 2) Cytuno i ddyrannu £100,000 yn 2018/19 i gwmpasu strategaeth ddigidol a llunio achos busnes, a fydd yn adlewyrchu'r cyfeiriad strategol cyffredinol y cyfeirir ato yn argymhelliad 1.
- 3) Cytuno i ddyrannu £30,000 yn 2018/19 i ddarparu adnodd i gefnogi gwaith project y Gweithgor Data Agored.
- 4) Dweud a yw'r Cyd-Gabinet am flaenoriaethu datblygu'r elfen o'r achos busnes sy'n delio gyda sefydlu cysylltiad â'r cyswllt trawsatlantig er mwyn gwneud penderfyniad buddsoddi cynnar.

Y Cynghorydd Anthony Hunt Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 6 Chwefror 2018

Atodir yr Atodiadau canlynol:

- Atodiad 1:** Datganiad Rhagdybiaethau Adnoddau
Atodiad 2: Cofnod Arsylwi Ymgeiswyr Bwrdd Cabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Adroddiad Strategaeth Ddigidol – Rhagdybiaethau Adnoddau

Gweithgaredd	Amcangyfrif o'r gost	Ffynhonnell y Cyllid	Blwyddyn Ariannol	Nodiadau
Arbenigedd Ymgynghori allanol	£80,000	CCRCD: Cronfa buddsoddi ehangach – Cyllideb Datblygu a Chymorth	2018/19	Ymgynghorwyr technolegol 100 diwrnod @ £800 y diwrnod Amserlen: 01 Ebrill – 30 Medi 2018 Caffaelwyd y Gwasanaethau a Rheolir y Contract gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cymorth Caffael	£10,000	CCRCD: Cronfa buddsoddi ehangach – Cyllideb Datblygu a Chymorth	2018/19	Amcangyfrif y gost o gaffael ymgynghorwyr Technolegol a/neu gymorth ar gyfer Amserlen y cam Cynllunio Busnes: 01 Ebrill – 30 Medi 2018 Darperir y Cymorth Caffael gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cefnogaeth i Reoli Rhaglenni	O fewn strwythur PMO 18/19	CCRCD – Cyllideb y Swyddfa Rheoli Rhaglenni (Swydd dros dro)	2018/19	Swydd fel Swyddog Datblygu dros dro y Swyddfa Rheoli Rhaglenni o'r tu fewn i'r strwythur 18/19 presennol Amserlen: 01 Ebrill – 30 Medi 2018 Cyfrifoldeb dros recriwtio/ Rheolwr Llinell: CCRCD PMO
Marchnata a Brandio	£10,000	CCRCD: Cronfa buddsoddi ehangach – Cyllideb Datblygu a Chymorth	2018/19	Asesiad lefel uchel cychwynnol ac mae'n bosibl y bydd angen mynd yn ôl ato. Gellid ei gaffael yn allanol neu'n fewnol gan un o'r Awdurdodau Partneriaid Amserlen: 01 Ebrill – 30 Medi 2018 Caffaelwyd y Gwasanaethau a Rheolir y Contract gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor arbenigol Ariannol, Cyfreithiol neu ar Eiddo	£ l'w gadarnhau	CCRCD: Cronfa Buddsoddi Ehangach – Cyllideb Project Cymeradwy (yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes)	l'w gadarnhau	Cymorth allanol ychwanegol ar gyfer paratoi achosion busnes yn fanwl a gwaith diwydrwydd dyladwy cysylltiedig, y rhestrir manylion ohono yn yr Achos Busnes Rhaglen SOC Amserlen: l'w gadarnhau Caffaelwyd y Gwasanaethau a Rheolir y Contract gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddog Cymorth Grŵp Data Agored	£30,000	CCRCD: Cronfa buddsoddi ehangach – Cyllideb Datblygu a Chymorth	2018/19	Yn tybio 3 diwrnod yr wythnos o gyflog gros o £48,900 a threuliau Amserlen: 01 Ebrill – 31 Mawrth 2019 Cyfrifoldeb dros recriwtio/ Rheolwr llinell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Datblygu Model Busnes Pum Achos er mwyn cefnogi'r bid Cyllid Grant LLFN Ton 2	£15,076	CCRCD – Cyllideb y Swyddfa Rheoli'r Rhaglen	2017/18	Ymgynghoriaeth ar gyfer EOI (£4,076) ac Ardal Gwella Busnes (£4,500), Mapio Llwybrau'r Rhwydwaith (£5,000) ac Ymgynghoriaeth Gyfreithiol (£1,500) Amserlen: Aethpwyd iddynt eisoes

				Caffaelwyd y Gwasanaethau a Rheolir y Contract gan: Cyngor Sir Casnewydd
Community Fibre SOC	£16,000	Llywodraeth Cymru	2018/19	Mapio cost y ddarpariaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyllid Amserlen: 2018/19 at ddibenion mapio. Amserlen bellach i'w phennu yn dilyn yr ymarfer mapio. Caffaelwyd y Gwasanaethau a Rheolir y Contract gan: Llywodraeth Cymru ar gyfer mapio

Yn ogystal â'r adnoddau uchod, caiff y project ei gefnogi'n fewnol gan y deg awdurdod partner trwy'r grŵp Arweinwyr TGCh

BWRDD RHAGLEN BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

COFNOD ARSYLWI AR Y CYNLLUN YMGEISWYR EITEM AGENDA:

Cyfarfu Bwrdd Rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar:

21 Rhagfyr 2017

Y Cynllun Ymgeiswyr a aseswyd yn y cyfarfod hwnnw oedd:

Y Strategaeth Ddigidol

Cytunwyd mai Cyngor Torfaen yw'r Noddwr Cynllun Ymgeiswyr ar gyfer y cynnig hwn.

Arsylwadau'r Bwrdd Rhaglen

Ystyriodd y Bwrdd y mater yn ei gyfarfod ar 21 Rhagfyr 2017.

Meini Prawf ar gyfer Cefnogi Buddsoddiad

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd mae gan y cynnig y potensial i:

- Wella'n sylweddol allu a photensial digidol ardal Borgen Ddinesig Dinas-ranbarth Caerdydd.
- Dylanwadu ar fuddsoddiad sector preifat sylweddol
- Denu a chadw busnesau a fydd yn darparu swyddi o ansawdd uchel
- Cynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth

Datblygu Achos Busnes

Cytunodd y Bwrdd fod angen darparu arian datblygu i ddatblygu'r strategaeth a brand digidol y CCRCDD, cwmpas y rhaglenni sydd yn y cynigion ac i ddatblygu achos busnes ar gyfer buddsoddiad CCRCDD.

Cymorth Gwladwriaethol

I gael ei ystyried yn rhan o'r Achos Busnes Llawn

Risg

I gael ei ystyried yn rhan o'r Achos Busnes Llawn.

CASGLIADAU

Ar sail y wybodaeth a'r dadansoddiad uchod, argymhelliad y bwrdd i'r Cabinet Rhanbarthol yw

- i) Cytuno ar y cynigion wedi'u nodi yn yr adroddiad fel y cyfeiriad strategol trosfwaol ar gyfer haen ddigidol CCRC**
- ii) Cytuno i ddyrannu £120,000 yn 2018/19 ar gyfer cwmpasu strategaeth ddigidol a datblygu achos busnes.**
- iii) Dweud a yw'r Cyd-Gabinet am flaenoriaethu datblygu'r elfen o'r achos busnes sy'n delio gyda sefydlu cysylltiad â'r cyswllt trawsatlantig er mwyn gwneud penderfyniad buddsoddi cynnar.**
- iv) Cytuno i ddyrannu £30,000 yn 2018/19 i ddarparu adnodd i gefnogi gwaith project y Gweithgor Data Agored.**